



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 44  
MAI 2012

### ***Y Grym a ddaw o Gyd-sefyll*** **Wythnos Cymorth Cristnogol: 13-19 Mai 2012**

Eleni, mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn adrodd stori cymuned yn Sierra Leone a welodd newid rhyfeddol. Trawsfurfiwyd bywyd gwraig o'r enw Tenneh Keimbay pan ddaeth Eglwys Fethodistaidd Sierra Leone (EFSL) i weithio yn ei thref gan ddsbarthu offer a hyfforddi ffermwyr mewn technegau syml i gynhyrchu bwyd. Dyma'r hyn a ddywedodd: 'Bellach mae'r plant yn bwyta dau bryd bwyd gydol y flwyddyn, lle'r oeddent o'r blaen ond yn cael un. Maent yn tyfu'n dda; byth yn crio oherwydd angen bwyd. Maent yn hapus i fynd i'r ysgol am fod ganddynt fwyd yn eu boliau'.

Mae'r budd a ddaw o gael bwyd cyson yn amlwg. Ond mae effeithiau'r grŵp cynhyrchu bwyd wedi bod yn ehangach na hynny. Mae Tenneh'n sôn am y gwahaniaeth mawr a wnaed drwy weithio mewn grŵp. Wrth gydweithio, mae'r ffermwyr yn gallu rhannu eu sgiliau a gweithio'n fwy effeithiol. Fel mae hi'n dweud, yr hyn sy'n cyfrif yw bod 'y gwaith grŵp yn cynhyrchu mwy o fwyd'.

Cyfeiria Tenneh at y gefnogaeth a'r anogaeth mae'r ffermwyr yn ei roi i'w gilydd, a faint y gellir ei gyflawni wrth i'r gymuned ddod at ei gilydd. 'Yr hyn sy'n fy ysbrydoli mewn bywyd yw undod', meddai, 'i mi, ystyr undod yw dod at ein gilydd i benderfynu ar un peth ac i symud ymlaen ar hwnnw'.

Gan nad ydynt bellach wedi eu cyfyngu gan newyn, mae pobl Gbap (yngenir Bap) wedi dod at ei gilydd ac wedi lloio'n llwyddiannus am ysgol newydd a chanolfan gwaith amaethyddol i'r gymuned. Maent wedi cymryd y cyfrifoldeb am eu dyfodol eu hunain.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol bydd 15,000 o eglwysi ar draws Prydain ac Iwerddon yn trefnu casgliadau o dŷ i dŷ a digwyddiadau codi arian, i alluogi mudiadau fel EFSL i weithio i drawsnewid cymunedau fel Gbap. Mae Cymorth Cristnogol, ar hyn o bryd, yn gweithio gyda 507 o bartneriaid mewn 47 gwlad yn Affrica, Asia, y Dwyrain Canol, America Ladin a'r Caribî, gan helpu pobl i greu newid. Lluosogir y rhoddion nifer o weithiau wrth i weithredoedd bach ddod ynghyd i greu newid mawr.

Ond nid rhoi un ffordd yn unig yw'r hyn sy'n digwydd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Gallwn ninnau hefyd ddysgu llawer am gydweithio. Fel y dengys profiad Tenneh mae pethau mawr yn gallu digwydd pan fyddwn yn dod at ein gilydd. Dywed Tenneh 'pan ydych mewn grŵp ac yn gweithio gydag ymrwymiad ac ymroddiad llwyr, rydych yn gweithio'n gyflymach; gall y cryfaf helpu gyda'r gwaith nad yw'r gwannaf yn gallu ei wneud ar eu pennau eu hunain.' Wrth i ni gymryd rhan yn Wythnos Cymorth Cristnogol, gallwn lawenhau wrth i ni sefyll ynghyd mewn undod. Efallai y byddwn yn gofyn pwy yw'r cryf, a phwy yw'r gwan - a phwy, yn union, sy'n rhoi i bwy.

*Rho inni'n fuan weled dydd  
na cheir, drugarog Dduw,  
na newyn blin na thlodi chwaith,  
na neb heb gyfle i fyw*

R Gwilym Hughes

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

**CALENDR MIS MAI 2012**

<b>Cyhoeddwr y Mis: Sandra Beechey</b>	<b>Organydd y Mis : Ceris Gruffudd</b>	
6 Mai 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mairwen
13 Mai 10.00yb a 5.30yh	Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion: Bethel, Tal-y-bont Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths	
20 Mai 2.30yp	Oedfa am y 'Samariaid' yng nghwmni Cerys Humphreys	Gofal y Te: i'w drefnu
27 Mai 10.30yb	Oedfa i Ddathlu'r Pentecost ar y cyd gyda Bethel ag Eglwys San Paul ym Methel: Gweinidog	
3 Mehefin 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun:Mairwen

**I'CH DYDDIADUR**

9 Mai: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys: 12.00yp  
 9 Mai : Rihyrsal y Gymanfa Ganu: Bethel, Tal-y-bont 7.00yh  
 13-19 Wythnos Cymorth Cristnogol.  
 14 Mai Cinio Bara Caws o dan ofal Eglwysi San Mihangel a'r Santes Fair **ym Methel** 12.00-1.30yp  
 16 Mai: Cymdeithas Bethel am 2yp yng nghwmni Marise Harris a fydd yn siarad am *Cerrig Beddau*.  
 21-26 Mai: Siop Cymorth Cristnogol: Ffestri Seion, Stryd y Popty (Oriau Agor: Dydd Llun: 11.00yb-5.00yp, Gweddill yr Wythnos: 9.30yb-5.30yp)  
 22-23 Mai: Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Soar Llwynhendy.  
 23 Mai:Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys  
 28 Mai: Cyfarfod Diaconiaid am 7yh.  
 29 Mai: Cwrdd Gweddi Misol yn festri Horeb 7.30yh.  
 30 Mai: Oedfa Chwiorydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Aberduar am 3yp  
 24 Mehefin: Pererindod i Bantycelyn. Enwau i Ceris os gwelwch yn dda.  
 6 Hydref: Diwrnod i'r Brenin: Gŵyl Cristnogol i bawb o bob oed. Maes y Sioe, Llanelwedd. Trefnir ar y cyd rhwng Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

**Lloffion**

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â:

Gillian a'r teulu ar golli cefnder  
 Sue a'r teulu ar golli ewythr

**Croeso** adref i Dafydd Parry sydd wedi treulio peth amser gyda Rhiannon a'r teulu yn Sir Gaerfyrddin.

**Derbyniodd** Horeb y swm o £345 er cof am y ddiweddar Mrs Menna Jenkins. Diolch i Nia, Emyr a'r teulu.

**Diolch yn fawr iawn** i Mair, Sue, Glenys a Mared am gyflwyno'r ddrama inni fore Sul y Pasg.

**Dymuniadau gwresocaf** i Derfel a fydd yn Cario'r Ffagl Olympaidd yn Llan-non ar Ddydd Sul, 27ain Mai.

**Hyfryd** iawn oedd gweithred Gareth Phillips, Caerdydd yn cyflwyno Cadair Eisteddfod Penrhyn-coch ynghyd a'r rhodd ariannol eleni er cof am ei rieni, y Parchedig Arwyn a Mrs Morfydd Morris. Dymunwn yn dda i Gareth hefyd sydd wedi cael llaw-driniaeth ar ei droed. Brysiwch wella.

**Rhaglen Cymanfa Ganu 2012:** mae copïau ar gael gan Ceris am £1.30

**Wythnos Cymorth Cristnogol:13-19 Mai:** Os ydych yn barod i gynorthwyo gyda'r gwaith o gasglu cyfraniadau o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos bwysig hon, rhowch wybod i Ceris.

**Cylch Darllen y Beibl:** Ar nos Fawrth olaf mis Mehefin byddwn yn cychwyn cyfarfodydd Cylch Darllen y Beibl. Byddwn yn cychwyn gyda Llythyr Paul at y Philipiaid ac yn cael sgwrs ysgafn am gynnwys y bennod a'i arwyddocâd inni heddiw. Croeso cynnes i bawb.

**Diwrnod i'r Brenin,** Maes y Sioe, Llanelwedd 6 Hydref: Mae angen stiwardiaid am ddwy awr ar y tro ar gyfer y digwyddiad hwn. Rhowch wybod i'r gweinidog os oes gennych ddiddordeb.